# Cyngor Cymuned Mawddwy

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: huwjones792@btinternet.com**

2ail Hydref 2023

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD nesaf CYNGOR CYMUNED MAWDDWY** ***Nos Fercher yr 11eg o Hydref am 8.00yh yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

……………………………………………………………………………………………

AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 30ain o Awst 2023 – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.

b) Hysbysfyrddau/ byrddau gwybodaeth – nodi y diweddaraf.

c) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy – nodi y diweddaraf . Hefyd sefyllfa torri gwair Llanymawddwy.

d) Torri gwair mynwent Dinas o 2024 ymlaen – nodi ymateb I'r hysbyseb am gontractor or newydd.

e) Toiledau Dinas Mawddwy.

f) Gwaith gan Adra yn y maes parcio yn Lawnt y Plas.

g) Rheolau sefydlog newydd Cynghorau Cymuned – *i'w ddanfon allan ymlaenllaw i'r Cynghorwyr, ac i'w gymeradwyo*

h) Hyfforddiant Cynghorwyr

i) Safle hysbysu llwybrau Cwmni Nod Glas.

j) Cwyn am 2 garafan static – Min y Goedwig, Aberangell.

k) Trefniadau ar gyfer pobl sy'n symud i'r gymuned.

5**. Materion Cynllunio**

**NP5/74/510** – gosod twr latis 30 medr o uchder sy'n cynnal 3 antena, 2 dysgl 0.6m, 2 cwpwrdd offer, 1 caban mesura datblygiad ategol iddo gan gynnwys generadur a chompownd sydd wedi ei amgau gan ffensys 1.1m o uchder – **Tir Pentrewern, Dinas Mawddwy.**

*Wedi ei ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod diwethaf – nid oedd gwrthwynebiad.*

6.**Materion Cyllid.**

Nodi balansau cyfrifon

E - bost gan Archwilio Cymru yn nodi cwbwlhau gwaith cyfrifon Cyngor Mawddwy am 2022-23.

Cydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc / HMRC

7**.Gohebiaeth**

- Crynodeb penderfyniadau ar gyfer y wefan
- Arolwg gweithrediadau Eco-dyfi – wedi ei ddanfon i'r Cynghrowyr.
- Cyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd 4ydd Hydref.

.

8. **Unrhyw fater arall**

*Noder fod y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 29ain o Dachwedd.*